# Rhaglen Adloniant

# Gŵyl Caws Caerffili 2026

# Dydd Sadwrn 29 Awst a dydd Sul 30 Awst

| Lleoliad | Atyniad |
|---|---|
| Canol Tref – Cardiff Road | Stondinau crefft, gwybodaeth ac arddangos |
| Canol Tref – Maes Parcio’r Twyn | Stondinau bwyd, diod a chaws |
| Canol Tref – Cenotaph | Ffair Grefftau Caerffili gan Crafty Legs |
| Canol Tref – Canolfan Siopa Cwrt y Castell | Marchnad Crefft a Bwyd Cwrt y Castell |
| Canol Tref – Canolfan Siopa Cwrt y Castell | Rhaglen Adloniant Llwyfan Band Cwrt y Castell |
| Canol Tref - Morrisons | Ffair Grefftau Lle’r Farchnad Caerffili |
| Canol Tref & Crescent Road | Ardaloedd perfformio cerddoriaeth AM DDIM |
| Canol Tref & Crescent Road | Bwyd Stryd |
| Canol Tref & Crescent Road | Barrau unigryw |
| Canol Tref & Crescent Road | Mannau eistedd ac ardaloedd picnic AM DDIM |
| Crescent Road | Reidiau ac Atyniadau Ffair Bleser |
| Crescent Road | Reidiau ar gefn asynnod |
| Crescent Road | Fferm anwesu AM DDIM |
| Crescent Road | Gweithdai ac arddangosiadau ymladd canoloesol AM DDIM |
| Crescent Road | Arddangosiadau Taekwondo AM DDIM |
| Crescent Road | Golff gwallgof AM DDIM |
| Crescent Road | Gweithdai Sgiliau Syrcas AM DDIM |

***Gall yr holl rhaglen newid.**

## Stondinau crefft, gwybodaeth ac arddangos



Bydd dros 40 o stondinau crefft a gwybodaeth wedi'u lleoli yng nghanol y dref gyda nwyddau cartref ac anrhegion creadigol, teganau, llawer o eitemau wedi'u gwneud â llaw yn ogystal â llawer o stondinau gwybodaeth, arddangos ac elusennol.

***Facebook: Visit Caerphilly***

## Stondinau Bwyd, Diod a Chaws



Bydd dros 40 o stondinau bwyd, diod a chaws wedi'u lleoli ym maes parcio'r Twyn, yng nghanol tref Caerffili. O seidr a gwirodydd i gacennau, olifau, jam, siytni a llawer mwy. Bydd cymaint i godi chwant bwyd a llenwi'r cypyrddau â llawer o gynhyrchion cartref.

Bydd 5 cynhyrchydd caws ymhlith y gymysgedd yn gwerthu cynnyrch anhygoel:

| | |
|---|---|
| The Bath Soft Cheese Co Ltd | Mae Bath Soft Cheese Co. yn gwmni teuluol sy'n cynhyrchu caws ac wedi'i leoli ym Mharc Farm yn Kelston, ger Bath. Mae eu hystod amrywiol o gawsiau crefftus, sydd wedi ennill gwobrau, yn cael eu gwneud gan ddefnyddio technegau traddodiadol a llaeth o'u buches unigol o wartheg eu hunain. |
| Bryngaer Goats Cheese | Caws gafr wedi'i wneud â llaw:<br><br>Gafr Las – Caws gafr glas meddal wedi'i aeddfedu gan lwydni; cryfder canolig. Wedi'i aeddfedu am 4–5 wythnos.<br><br>Marta Gafr – Caws gafr caled yn null Manchego. Wedi'i aeddfedu am o leiaf 2 fis.<br><br>Molly Gafr – Caws gafr chèvre ffres y mae modd ei daenu ac sy'n cael ei werthu mewn jariau gwydr. |
| The Snowdonia Cheese Company | Dewis o 12 caws Cheddar Cymreig a chaws coch Caerlŷr premiwm wedi'u selio â chwyr gyda dewis o siytni a chracers. |
| The Cheese Wedge Company | Caws crefftwrol wedi'i wneud â llaw. |
| The Blaenafon Cheddar Company Ltd | Caws Cymreig crefftwrol a rhyngwladol wedi'i wneud â llaw. |

****Noder bod yr holl alcohol sy'n cael ei brynu i'w yfed oddi ar y safle.*

***Facebook: Visit Caerphilly***

## Ffair Grefftau gan Crafty Legs – Senotaff



Bydd y ffair grefftau fisol wrth y Senotaff, gyda tua 30 o grefftwyr. Gyda chelf a chrefft, addurniadau

## Marchnad Crefft a Bwyd Cwrt y Castell



cartref a gemwaith, bydd digon o anrhegion wedi'u gwneud â llaw yn lleol ar gael i'w gweld er mwyn prynu anrheg anarferol ac unigryw.

***Facebook: Crafty Legs Events***

Mae Marchnad Crefft a Bwyd Canolfan Siopa Cwrt y Castell wedi'i lleoli gyferbyn â Chastell Caerffili yng Nghanolfan Siopa Cwrt y Castell. Mae'r farchnad fisol yn arddangos busnesau bach gydag eitemau bwyd a chrefft. Gyda nifer ardderchog o ymwelwyr misol, parcio am ddim am hyd at 3 awr ac awyrgylch croesawgar, mae Cwrt y Castell bob amser yn farchnad wych i ymweld â hi.

***Facebook: Castle Court Shopping Centre, Caerphilly***

### Adloniant Lwyfan Band Canolfan Siopa Cwrt y Castell



Bydd Llwyfan Band Canolfan Siopa Cwrt-y-Castell yn gartref i amrywiaeth gwych o grwpiau'r gymuned drwy gydol y dydd.

***Facebook: Castle Court Shopping Centre, Caerphilly***
***Gwefan: www.castlecourtwales.co.uk***

### Ffair Grefftau Lle'r Farchnad Caerffili - Morrisons



Mae'r farchnad grefftwyr fisol hon wedi'i lleoli yn Morrisons, Caerffili ac mae'n croesawu tua 25 o grefftwyr o fusnesau bach o Dde Cymru. Mae parcio hygyrch am ddim ar gael am hyd at 3 awr.

***Facebook: Caerphilly Marketplace***

### Ardaloedd perfformio cerddoriaeth AM DDIM

### Bwyd Stryd




Bydd ardaloedd cerddoriaeth yng nghanol y dref (Llwyfan Fach Ffos y Castell) a Crescent Road (Prif Lwyfan y Tŵr Cam) dan ei sang gydag amrywiaeth o artistiaid unigol, deuawdau a bandiau. Cyfle i ddawnsio ac ymlacio!

***Facebook: Visit Caerphilly***




Ledled canol y dref a Crescent Road bydd stondinau bwyd stryd amrywiol yn darparu prydau blasus! Macaroni a chaws, pizza, gyros, byrgyrs, brechdanau crasu, prydau wok Tsieineaidd, crêpes Ffrengig a mwy! Dyma rai o'r danteithion blasus a fydd ar gael – bydd rhywbeth at ddant pawb.

***Facebook: Visit Caerphilly***

## Barrau unigryw




Yn Crescent Road, sef lleoliad prif lwyfan cerddoriaeth y Tŵr Cam, bydd amrywiaeth o farrau yn gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle. Seidr, cwrw, gwirodydd, coctels a mwy – bydd rhywbeth at ddant pawb.

Yn Cardiff Road, yng nghanol y dref, bydd bar yn gweini llwyfan cerddoriaeth bach Ffos y Castell.

*Rhaid i unrhyw alcohol sy'n cael ei brynu gael ei yfed yn y mannau dynodedig o fewn y rhwystrau ac nid oes modd ei gymryd allan o'r mannau hynny i'w yfed mewn rhannau eraill o safle'r digwyddiad. Ni fydd modd dod ag alcohol i safle'r digwyddiad. Rhaid prynu ac yfed alcohol yn y parthau yfed dynodedig.*

***Facebook: Visit Caerphilly***

## Mannau eistedd ac ardaloedd picnic AM DDIM



Eisteddwch ac ymlacio wrth wrando ar berfformiadau cerddoriaeth ym mhob rhan o safle'r digwyddiad.

Bydd meinciau picnic wedi'u lleoli ledled canol y dref, yn Crescent Road ac ym maes parcio'r Twyn.

Ym Mharc Dafydd Williams, mae meinciau picnic a digonedd o fannau glaswelltog i allu eistedd ac ymlacio.

Y tu ôl i'r castell, bydd blancedi picnic a chadeiriau cynfas ar gael, gyda golygfa o gastell godidog Caerffili.

| | |
|---|---|
| | ***Facebook: Visit Caerphilly*** |

## Reidiau ac Atyniadau Ffair




Eleni, bydd amrywiaeth wych o atyniadau ffair bleser y tu ôl i'r castell. Bydd cwpl o reidiau mwy i bobl ifanc yn eu harddegau, fel Miami a Freak Out, a digonedd o reidiau i blant llai i ddiddanu pawb.

**Rhestr lawn o reidiau ynghyd ag amrywiaeth o stondinau ochr:**

| |
|---|
| Mini Waltzer |
| Chair O Planes |
| Toy Ride |
| Crazy Cottage Funhouse |
| Trampoline & Activity Centre |
| Juvenile Cups and Saucers Ride |
| Bungee Trampolines |
| Monster Trucks |

| |
|---|
| Family Runaway Train |
| Juvenile Bumper Cars |
| Juvenile Mini Sky Jump Coaster Ride |
| Children's Juvenile Ride |
| Mini Wheel |
| Juvenile Paratrooper Ride |
| Waltzer |
| Can Can Frogger |
| Twister Ride |
| Dodgems |
| Freak Out |
| Dance Zone Miami |
| Crazy Cage |

***Facebook: [www.facebook.com/SouthWalesFunDays](www.facebook.com/SouthWalesFunDays)***

## Reidiau ar Gefn Asynnod



Mae plant wrth eu bodd â'r anifeiliaid blewog hyn. Reidiau am dâl ar gael drwy'r dydd!

***Facebook: Mike's Donkeys***
***Gwefan: www.mikesdonkeys.co.uk***

## Fferm Anwesu AM DDIM



Fferm anwesu AM DDIM i deuluoedd i ddod i adnabod creaduriaid pert ac annwyl. Yn cynnwys geifr, defaid, ŵyn, asynnod bychain, cwningod a moch cwta. Gofynnwch gwestiynau am yr anifeiliaid hoffus hyn a dysgu am eu harferion.

***Facebook: Mike's Donkeys***
***Gwefan: www.mikesdonkeys.co.uk***

## Gweithdai ac arddangosiadau ymladd canoloesol AM DDIM



## Arddangosiadau Taekwondo AM DDIM



<table>
<tr>
<td>Medieval Combat Wales yw'r corff llywodraethu ar gyfer ymladd canoloesol cyswllt llawn yng Nghymru. Maen nhw'n aelodau o Ffederasiwn Rhyngwladol Ymladd Canoloesol (IMCF) a Buhurt International. Rhowch gynnig ar dechnegau defnyddio arf, tarian ac ymgodymu gyda'r offer meddal, neu eistedd yn ôl a gwylio'r bobl broffesiynol wrthi.<br><br>***Facebook: Medieval Combat Wales***</td>
<td>Bydd Taekwon-do-Wales Caerffili yn cynnal arddangosiadau crefft ymladd a fydd yn cyflwyno traddodiadau cyfoethog Taekwondo, gan roi sylw i arferion oesol, gan gynnwys arddangosiadau arfau, technegau hunanamddiffyn ac ymarfer ymladd.<br><br>***Facebook: Taekwon-do-Wales***</td>
</tr>
<tr>
<td>

## Golff Gwallgof AM DDIM




Mwynhewch gêm AM DDIM o golff gwallgof ar y cwrs symudol hwn... Amser i ymarfer eich sgiliau pytio chi!

**Facebook: InHouse Entertainments**

</td>
<td>

## Gweithdai Sgiliau Syrcas AM DDIM



Dewch yn llu! Dewch yn llu! Rhowch gynnig ar sgiliau syrcas llawn hwyl! Troelli platiau, styntiau ffyn a diabolo, cylchynnau hwla, bocsys sigârs a poi! Nid oes angen sgiliau blaenorol gan y bydd ein tiwtoriaid yn dangos i chi sut i'w gwneud nhw! Felly, dewch draw a chael ychydig o hwyl syrcas!

**Facebook: Flying Colours**

</td>
</tr>
</table>

***(Gall yr holl wybodaeth newid. Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg ei chynhyrchu.)***